

RYDYM YN **recriwtio**

UCHAFBWYNTIAU Y SWYDD





Cymhorthydd Gwasanaethau Gwesteion - Nova

Gwybodaeth Hanfodol

Cyflog: £18,741 i £19,054 y flwyddyn / £11.98 i £12.18 yr awr

Oriau: Rhan amser, 30 awr yr wythnos

Contract: Parhaol

Am y Swydd

Fel Cynorthwydd Gwasanaeth Gwesteion, chi fydd y pwynt cyswllt cyntaf ar gyfer ein cwsmeriaid. Mae gennym amrywiaeth o gyfleusterau o Clwb Nova, i Cwt Traeth, i Chwarae Antur, felly bydd cwsmeriaid yn edrych atoch chi am gyngor a gwybodaeth.

Mae eich rôl yn llawer mwy na chymryd archebion a phwyntio pobl i'r cyfeiriad cywir - chi fydd y wên gyfeillgar sy'n eu croesawu trwy'r drws, y ffynhonnell o wybodaeth am yr holl bethau hwyliog i'w gwneud, faint fyddan nhw'n ei gostio, a pha gynigion sydd gennym. Byddwch yn sicrhau bod eu hanghenion yn cael eu cwrdd, eu bod yn rhagori ar eu disgwyliaid, a bod eu cwestiynau'n cael eu hateb. Oherwydd chi, byddan nhw'n gadael gyda'r eisiau i archebu ymweliad arall.

Nid yn unig fyddwch yn wyneb yr atyniad, ond byddwch hefyd yn lais Hamdden Rhuthun ar gyfryngau cymdeithasol, trwy gynnal presenoldeb gweithredol ar ein sianeli ac yn ymateb i ymholiadau cwsmeriaid.

Rydym yn ymfalchïo yn ein cyfleusterau a'r amgylchedd yr ydym yn ei gynnig i'n cwsmeriaid, felly byddem yn disgwyl i chi ymfalchïo yn y safle, gan sicrhau ei fod yn lân, yn dachus ac yn ddiogel i bawb ei ddefnyddio bob amser.

Mae'r dogfen hon hefyd ar gael yn y Saesneg / This document is also available in English



Cymhorthydd Gwasanaethau Gwesteion - Nova

Amdanoch Chi

Byddwch yn unigolyn hyderus a chyfeillgar, gyda sgiliau pobl rhagorol ac yn talu sylw gwych i fanylder.

Mae ein cwsmeriaid yn hynod bwysig i ni, felly mae angen rhywun sy'n gallu tawelu pobl, ac sydd ag awydd i wneud yn siŵr bod pawb yn cael profiad gwych bob amser. Byddwch yn gallu dod o hyd i'r cyfuniad perffaith o broffesiynol, brwdfrydig a hynod gyfeillgar. Byddwch chi'n rhywun sydd wrth eich bodd yn gweld pobl eraill yn hapus, ac sy'n cael eich cymell gan helpu eraill. Rydyn ni i gyd yn gweithio fel tîm, #HamddenSirDdinbychYdymNi, ac felly byddwch chi'n rhywun sydd nid yn unig yn disgleirio ar eich pen eich hun, ond sydd hefyd yn helpu tîm i ddisgleirio gyda'ch gilydd.

Yn ddelfrydol bydd gennych rywfaint o brofiad o weithio gyda chwsmeriaid, ond y peth pwysicaf i ni yw bod gennych chi agwedd cwsmer yn gyntaf. Mae gennym ni gymaint o weithgareddau hwyliog a chynigion gwych ar draws y Cwmni, ac felly byddwch chi'n rhywun a all weld yr amseroedd cywir i siarad â chwsmeriaid am y rhain. Rydym wrth ein bodd yn datblygu ein staff, felly mae awydd i ddysgu a datblygu yn hanfodol ar gyfer y rôl hon.

Os ydych chi'n berson brwdfrydig, gydag awydd i helpu eraill, ac eisiau gweithio mewn Cwmni cyflym a hynod lwyddiannus, yna gallai hwn fod yn berffaith i chi.



Cymhorthydd Gwasanaethau Gwesteion - Nova

Amdanom ni

Trwy fuddsoddiad parhaus dros 12 mlynedd, mae HSDdCyf wedi datblygu portffolio o gyfleusterau sy'n arwain y sector, gan gynnwys 7 cyfleuster ffitrwydd premiwm, 7 darpariaeth bwyd a diod unigryw, 2 atyniad anhygoel a theatr syfrdanol â 1,000 o seddi.

Mae tîm HSDd yn dîm sefydledig, angerddol sy'n cael ei yrru, gyda diwylliant o berfformiad uchel a gwasanaeth cwsmeriaid rhagorol. Mae ein llwyddiannau yn y gorffennol wedi ein harwain i ble'r ydym heddiw, gydag enw rhagorol yn ein holl gyfleusterau, a thîm gweithgar sy'n ffynnu ar y cwsmer yn cael y profiadau gorau posibl.

Rydyn ni'n gweithio i athroniaeth 'un tîm, un cyfrif banc' - rydyn ni i gyd yn un tîm, pa waeth ym mha safle rydych chi wedi'ch lleoli. Gyda'n gilydd rydyn ni i gyd yn cyfrannu at wneud HSDdCyf yn llwyddiannus

Ein Gwerthoedd



Uchelgais a Thwf



Ymddiriedolaeth ac Uniondeb



Rhagoriaeth a Gwydnwch



Balchder ac Angerdd



Buddion Staff

Mae ein gweithlu o'r pwys mwyaf i ni ac rydym wedi ymrwymo i gynorthwyo staff i sicrhau cydbwysedd cadarnhaol rhwng bywyd a gwaith. Mae gan holl weithwyr HSDd hawl i amrywiaeth o fudd-daliadau, gan gynnwys:

- Aelodaeth campfa staff HSDd gostyngedig
- Cyfleoedd dysgu a datblygu personol a phroffesiynol
- Gwyliau blynyddol yn dechrau ar 26 diwrnod + gwyliau banc (gyda'r cyfle i ennill mwy)
- Cefnogaeth ar gyfer ceisiadau am seibiannau gyrfa ac secondiadau
- Amrywiaeth o bolisïau teulu-gyfeillgar i gefnogi'ch cydbwysedd rhwng bywyd a gwaith
- Darperir gwisg HSDd

Lleoliad: Nova, Ffordd Bastion, Prestatyn, LL19 7EY

Dyddiad Cau: 14 Rhagfyr 2023

Gwnewch gais drwy: ebostio eich CV i Pobl@hamddensirddinbych.co.uk